

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

CYMRU



Communications Officer
Cymru

Communications Officer

Cymru

Contract: Cytundeb parhaol, rhan-amser.

Oriau: 21 awr, 3 diwrnod yr wythnos.

Cyflog: £20,000 - £23,000

Lleoliad: Wedi'i seilio yn swyddfa Ymddiriedolaeth Gofalwyr yng Nghaerdydd 1-2 ddiwrnod yr wythnos. Hyblygrwydd i weithio o swyddfeydd eraill Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU. Bydd y rôl hon yn gofyn am deithio achlysurol ar draws Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Pam mae'r rôl hon yn allweddol i Ymddiriedolaeth Gofalwyr



Mae'r rôl hon yn ganolog i gyflwyno a hyrwyddo'r Gronfa Seibiannau Byr (CSB) a'r Gronfa Cymorth Gofalwyr (CCG) yng Nghymru yn llwyddiannus. Wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, nod y rhaglenni hyn yw gwella mynediad at seibiannau byr a helpu i leihau'r pwysau ariannol sy'n wynebu gofalwyr di-dâl ledled y wlad.

Gan weithio fel rhan o dîm Cymru, bydd deiliad y swydd yn arwain gweithgareddau cyfathrebu a marchnata ar gyfer y ddwy gronfa, gan sicrhau bod straeon gofalwyr, effaith y rhaglenni a chyfleoedd i dderbyn cymorth yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ledled Cymru. Bydd y rôl yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi, a dangos y gwahaniaeth y mae'r rhaglenni hyn yn ei wneud i fywydau gofalwyr di-dâl.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Materion Allanol yng Nghymru a thîm Cyfathrebu a Marchnata Ymddiriedolaeth Gofalwyr ledled y DU i ddatblygu cynnwys digidol deniadol, sicrhau sylw yn y cyfryngau, cynhyrchu cyhoeddiadau a chydlynu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hefyd yn cydlynu digwyddiadau dysgu ac ymgysylltu sy'n dod â phartneriaid ynghyd i rannu arferion da a chryfhau'r ddarpariaeth ledled Cymru.

Elusen ledled y DU yw Ymddiriedolaeth Gofalwyr sy'n gweithio i drawsnewid bywydau gofalwyr di-dâl drwy rwydwaith o sefydliadau gofalwyr lleol. Rydym yn cefnogi dros filiwn o ofalwyr bob blwyddyn, gan gynnwys gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, drwy ddarparu cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol.

Yn y rôl hon byddwch yn



- Arwain gweithgareddau cyfathrebu a marchnata ar gyfer Cronfa Seibiannau Byr a Chronfa Cymorth Gofalwyr yng Nghymru.
- Creu cynnwys ysgrifenedig, gweledol a digidol deniadol sy'n dangos effaith y ddwy raglen.
- Cydlynu cynnwys cyfryngau cymdeithasol ar lwyfannau Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.
- Datblygu astudiaethau achos a storïau gyda gofalwyr a phartneriaid cyflenwi.
- Gweithio gyda chyflenwyr allanol, gan gynnwys ffotograffwyr, dylunwyr, cyfieithwyr a fideo-graffwyr.
- Cefnogi gwaith ymgysylltu â'r cyfryngau ar lefel leol, genedlaethol a arbenigol.
- Goruchwylio'r gwaith o reoli cynnwys gwefan benodol y Cynllun Seibiannau Byr.
- Cydlynu digwyddiadau dysgu, ymgysylltu a hyrwyddo ar gyfer rhanddeiliaid a phartneriaid.
- Cefnogi cydweithio ar draws Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a'r tîm Cyfathrebu a Marchnata ehangach ledled y DU.
- Helpu i sicrhau bod pob gweithgaredd cyfathrebu yn hygyrch, yn ddwyieithog lle bo angen, ac yn unol â chanllawiau brand y sefydliad.

Prif gyfrifoldebau

(nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr)



- Arwain ar greu cynnwys deniadol sy'n deillio o seibiannau byr a ariannir drwy'r Cynllun Seibiannau Byr a chyflwyno'r Gronfa Cymorth Gofalwyr, gan gynnwys astudiaethau achos ar ffurf ysgrifenedig, gweledol a digidol.
- Comisiynu a chydlynu cynnwys allanol, gan gynnwys ffotograffiaeth a ffilmiau byrion lle bo'n briodol.
- Arwain ar gynhyrchu cyhoeddiadau a deunyddiau marchnata ar gyfer y Cynllun Seibiannau Byr, gan gynnwys gweithgareddau dylunio mewnol ar raddfa lai.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau brand y Cynllun Seibiannau Byr ac arddull brand Ymddiriedolaeth Gofalwyr.
- Goruchwylio rheolaeth cynnwys gwefan benodol y Cynllun Seibiannau Byr.
- Sicrhau sylw yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol i straeon sy'n ymwneud â'r Cynllun Seibiannau Byr a Chronfa Cymorth Gofalwyr.
- Gweithio gyda gofalwyr di-dâl, partneriaid cyflenwi a chydweithwyr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ddatblygu straeon cyfryngol a darnau barn effeithiol.

Prif gyfrifoldebau



- Arwain ar reoli digwyddiadau dysgu a hyrwyddo sy'n ymwneud â'r ddwy raglen.
- Cydlynu cynnwys deniadol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar lwyfannau Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.
- Cefnogi gweithgarwch cyfathrebu ehangach tîm Cymru i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i ofalwyr di-dâl.
- Cydweithio ar draws Ymddiriedolaeth Gofalwyr i gefnogi datrys problemau ar y cyd a sicrhau darpariaeth effeithiol y rhaglenni.
- Gweithredu fel llysgennad dros Ymddiriedolaeth Gofalwyr a chyfrannu'n gadarnhaol at broffil y sefydliad a'i berthynas â rhanddeiliaid.
- Cefnogi'r gwaith o reoli risgiau i enw da'r sefydliad sy'n gysylltiedig â phartneriaethau a gweithgarwch cyhoeddus.
- Sicrhau ymrwymiad parhaus i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Ein hymgeisydd delfrydol



Os ydych yn bodloni'r rhan fwyaf (ond nid pob un) o'r meini prawf isod, rydym yn eich annog i wneud cais o hyd.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â:

- Profiad o sicrhau sylw yn y cyfryngau lleol a/neu genedlaethol.
- Profiad o reoli prosiectau cyfathrebu o'r cysyniad cychwynnol hyd at y cyflwyniad terfynol.
- Profiad o reoli cyflenwyr allanol gan gynnwys dylunwyr, ffotograffwyr, cyfieithwyr ac argraffwyr.
- Profiad o reoli cynnwys gwefannau a llwyfannau digidol.
- Profiad o weithio o fewn canllawiau brand corfforaethol.
- Sgiliau ysgrifennu copi cryf a'r gallu i greu cynnwys deniadol ar gyfer sianeli print a digidol.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda sylw ardderchog i fanylion.
- Sgiliau golygu a phrawfddarllen cryf.
- Y gallu i reoli allbynnau cyfathrebu dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â nifer o randdeiliaid.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a dull rhagweithiol a chydweithredol o weithio.
- Gwybodaeth ymarferol dda am gynnwys digidol a meddalwedd dylunio, gan gynnwys Adobe InDesign, Photoshop, meddalwedd golygu fideo, systemau rheoli cynnwys (CMS) a systemau marchnata e-bost fel dotMailer.
- Dealltwriaeth o ofynion cyfathrebu dwyieithog yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o gyfathrebu hygyrch a gofynion hygyrchedd gwefannau.
- Dealltwriaeth o gyfrinachedd, cydsyniad a rheoli gwybodaeth sensitif, gan gynnwys straeon ac astudiaethau achos gofalwyr.
- Dealltwriaeth o anghenion gofalwyr di-dâl a phwysigrwydd seibiannau byr.

Byddai hefyd yn fuddiol pe bai gennych:

- Brofiad o reoli digwyddiadau.
- Profiad o weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru.
- Sgiliau Cymraeg, gan gynnwys y gallu i ddrafftio, golygu a phrawfddarllen copi Cymraeg.
- Gwybodaeth am anghenion cyfathrebu sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru.

Ein hymgeisydd delfrydol



Ymddygiadau a Gwerthoedd

Yn Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae ein gwerthoedd yn llywio popeth a wnawn.

Rydym yn Ddibynadwy

Rydym yn meithrin perthnasoedd gwirioneddol gyda gofalwyr di-dâl, partneriaid a chefnogwyr. Rydym yn cydweithio, yn gweithredu gydag uniondeb ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb.

Rydym yn Gynhwysol

Rydym yn gwrandao ar brofiadau amrywiol ac yn dysgu ohonynt er mwyn helpu i lunio gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn gynhwysol i bob gofalwr.

Rydym yn Ddewr

Rydym yn codi llais, yn herio anghyfiawnder ac yn gweithio gyda'n gilydd i greu newid ystyrlon i ofalwyr di-dâl.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n dangos:

- Ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant, gwrth-hiliaeth a chyfiawnder cymdeithasol.
- Dull cydweithredol a hael o ddatrys problemau ar y cyd.
- Chwilfrydedd, myfyrdod a bod yn agored i arloesi.
- Y gallu i weithio'n gyflym, ymateb yn hyblyg a chydbwyso nifer o flaenoriaethau ac anghenion rhanddeiliaid.

Sut i wneud cais



Dylid cyflwyno ceisiadau drwy borth recriwtio Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Llwythwch eich CV a datganiad ategol sy'n amlinellu sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn bodloni meini prawf y rôl hon.

Rydym yn hapus i wneud unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnoch, a byddwn yn rhannu'r holl gwestiynau cyfweld ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i recriwtio cynhwysol.

Am sgwrs anffurfiol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â:
recruitment@carers.org

- **Dyddiad cau ceisiadau:** Dydd Llun, 27 Gorffennaf 2026
- **Dyddiad disgwylidig y cyfweiliadau:** 03–04 Awst 2026

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

CYMRU

